NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Technegau llawfeddygol drwy'r croen heb fawr ddim mewnwthio gyda gosodiad mewnol i gywiro hallux valgus

20 Mehefin 2024

Gellir defnyddio'r driniaeth hon i drin bynionau (a adwaenir hefyd fel hallux valgus) am ei bod yn gweithio'n dda ac nid oes unrhyw bryderon difrifol am ei diogelwch yn y cyflwr hwn.

Hallux valgus yw pan fydd cymal bys mawr y droed wedi anffurfio, gan achosi poen aml yn y droed. Mae bys mawr y droed yn plygu tuag at fysedd eraill y droed a daw lwmpyn esgyrnog (a elwir yn fynion) i'r golwg ar ochr y droed ar waelod bys mawr y droed.

Gwneir 1 toriad bach neu fwy drwy groen bys mawr y droed dan anesthesia lleol neu gyffredinol. Rhoddir offer llawfeddygol torri asgwrn drwy'r toriadau ac fe'u defnyddir i godi'r bynion a rhannu 1 asgwrn neu fwy ar flaen y droed. Caiff yr esgyrn a rannwyd eu diogelu â gwifrau, sgriwiau neu blatiau (gosodiad mewnol). Caiff y llawdriniaeth ei monitro gan ddefnyddio pelydrau-X neu endosgop (tiwb tenau, hyblyg gyda chamera ar y pen). Y nod yw sythu cymal bys mawr y droed i leddfu poen a symptomau eraill a gwarchod symudiad y cymal. O gymharu â llawdriniaeth safonol (agored), mae'r driniaeth hon yn defnyddio llai o doriadau i'r droed (heb fawr ddim mewnwthio).

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylech fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau am eich gofal.

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio risgiau a manteision y driniaeth hon ac egluro sut y'i gwneir. Dylai drafod eich opsiynau a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylai gynnig rhagor o wybodaeth i chi am y driniaeth. Gellir cynnwys eich teulu neu'ch gofalwyr yn y broses os hoffech hynny, neu os bydd angen eu cynnwys.

Gofynnir i chi benderfynu a ydych yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dysgwch ragor am roi cydsyniad i driniaethau ar wefan y GIG.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Faint o apwyntiadau y bydd eu hangen arnaf?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- A fydd yn rhaid i mi aros yn yr ysbyty?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall tudalen we y GIG ar fynionau fod yn lle da i gael gwybod mwy.

- Mae gwybodaeth NICE am ganllawiau IechydTech yn esbonio beth yw IechydTech a sut rydym yn eu hasesu.
- Mae gwybodaeth NICE am argymhellion ar gyfer IechydTech yn esbonio'r hyn y mae trefniadau safonol yn ei olygu.

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm Healthwatch lleol.

ISBN: 978-1-4731-8984-3